Swydd Wag

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

Teitl y Swydd:	**Cyfarwyddwr Polisi a Chyllid**
Graddfa cyflog:	**£61,937 - £71,725** **Disgwylir penodi ar bwynt isaf y band**
Lleoliad:	**Bedwas, Caerffili**
Dyddiad Cau:	**Hanner dydd, 15 Chwefror 2021**
Dyddiad y Cyfweliad:	**12 Mawrth 2021**
Nifer y Swyddi:	**1**
Cyfeirnod y Swydd Wag:	**HE0168/688**
Math o gontract:	**Parhaol, llawn amser (37 awr yr wythnos)**
Gwybodaeth berthnasol arall:	**Mae'r manteision cyflogaeth yn cynnwys mynediad i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, gweithio hyblyg a 30 diwrnod o wyliau blynyddol (ac eithrio gwyliau banc).**

Cefndir
Yng Nghyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru – CCAUC – rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd sefydliadau addysg uwch (AU), yn sicrhau bod fframwaith yn ei le ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch ac yn craffu ar berfformiad prifysgolion a darparwyr dynodedig eraill. Rydym yn defnyddio adnoddau gan Lywodraeth Cymru ac eraill i sicrhau dysgu ac ymchwil addysg uwch o'r safon uchaf, gan sicrhau cyfraniad gorau posib AU at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru. Rydym hefyd yn rhoi sylw penodol i feysydd blaenoriaeth sydd angen cefnogaeth ariannol ychwanegol, fel ymchwil, ehangu mynediad i addysg uwch, annog a chyllido cofrestru rhan amser a chefnogi pynciau fel meddygaeth glinigol lle mae'r costau'n llawer uwch nag incwm y ffi hyfforddi.

Cyfleoedd Cyfartal a'r Iaith Gymraeg
Mae CCAUC yn croesawu ceisiadau o bob rhan o'r gymuned ac mae'n falch o dderbyn ffurflenni cais yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Penodir ar sail rhinweddau.

Dilysu diogelwch
Gan ein bod yn rhannu adeilad swyddfa gyda Llywodraeth Cymru, rhaid i bob cyflogai gael archwiliad Sylfaenol o dan y Safon Diogelwch Personél (BPSS) ac archwiliad cofnod troseddol sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae pob cynnig o gyflogaeth yn amodol ar ganlyniad boddhaol yn y ddau archwiliad.

Rhagor o Wybodaeth
Os hoffech chi gael trafodaeth anffurfiol, yn gwbl gyfrinachol, ynghylch y swydd hon, cysylltwch â Bethan Owen, Dirprwy Brif Weithredwr, ar 029 2085 9710.

Sut i ymgeisio
Ffurflenni cais wedi'u llenwi fydd y ceisiadau yn rhoi sylw i ofynion y swydd. Dylid eu dychwelyd i hrdepartment@hefcw.ac.uk. Ni dderbynnir CV. Os bydd gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Adran Adnoddau Dynol ar 029 2085 9645.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Disgrifiad Swydd

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

1. Manylion y Swydd

Teitl y Swydd	Cyfarwyddwr Polisi a Chyllid
Teitl y Rheolwr Llinell	Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddiaeth/Tîm	Polisi a Chyllid
Dyddiad y Disgrifiad	Ionawr 2021
Lefel	2

Datganiad o Bwrpas Cyffredinol

Fel Cyfarwydd Polisi a Chyllid:

1. Arwain datblygiad polisi a mentrau cyllido CCAUC.
2. Sicrhau bod timau Polisi a Chyllid CCAUC yn gweithredu'n effeithiol.
3. Gweithio gyda'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr i gyfrannu at arweinyddiaeth CCAUC.

Er mwyn i CCAUC gyflawni amcanion ei Strategaeth Gorfforaethol yn llwyddiannus a chyfrannu, drwy hynny, at gynnal a datblygu sector Addysg Uwch cadarn yng Nghymru, a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

2. Y Prif Weithgareddau'n Gysylltiedig â'r Pwrpas Cyffredinol

1.	Arwain swyddogaethau CCAUC yn gysylltiedig â datblygu polisi a rhaglenni cyllido gan gynnwys y canlynol, ymhlith eraill: profiad myfyrwyr; ymchwil, arloesi ac ymgysylltu; ehangu mynediad a chynhwysiant sgiliau a chyflogadwyedd.	20%
2.	Rhoi sicrwydd i'r Cyngor a'r Prif Weithredwr drwy reolaeth effeithiol ar brosesau cyllido, monitro mentrau polisi a chyswllt â darparwyr addysg uwch.	20%
3.	Arwain a rheoli'r Gyfarwyddiaeth Polisi a Chyllido, gan sicrhau cynllunio corfforaethol a gweithredol effeithiol, a rheolaeth a monitro cynnydd effeithiol.	20%
4.	Fel uwch arweinydd, cynorthwyo'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr i ddatblygu a gweithredu polisi strategol a gweithredol CCAUC sy'n gyson â chanllawiau eang a roddir gan Lywodraeth Cymru.	15%
5.	Cynnal gwybodaeth broffesiynol am ddatblygiadau ym maes addysg uwch yn y DU fel sail i gyfraniadau at bolisïau ac arferion, a hefyd cynnal ei ddatblygiad proffesiynol ei hun.	10%
6.	Gweithio gyda chyrff cyllido a rheoleiddio addysg uwch eraill, gyda llywodraeth y DU a'r adrannau llywodraethol datganoledig a'r cyrff cysylltiedig er mwyn datblygu a chyflwyno polisïau i fodloni blaenoriaethau statudol a Llywodraeth Cymru, gan ddirprwyo ar ran y Prif Weithredwr, a'r Dirprwy Brif Weithredwr, yn ôl yr angen.	10%
7.	Cynnal gweithgareddau a chyflawni cyfrifoldebau sy'n cyfrannu at weithredu CCAUC yn economaidd, yn effeithiol ac yn effeithlon, gan gynnwys cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelwch Gwybodaeth, rheoli risg, rheoleiddio ariannol, Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, cydraddoldeb a'r Gymraeg, ymhlith eraill.	5%

3	**Yr Adnoddau yr Effeithir Arnynt (hy, cyllidebau, pobl)** Yn gyfrifol am reolaeth linell uniongyrchol ar bedwar uwch aelod o staff ac arweinyddiaeth y cyflogeion sy'n rhan o'u timau. Gan weithio gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr, darparu cyngor ar bolisi a goruchwyliaeth strategol ar oddeutu £200m o adnoddau CCAUC a ffrydiau cyllido ehangach y Llywodraeth.
4	**Galluoedd Gofynnol i gyflawni'r swydd gan fodloni ei gofynion 'yn llawn' neu Lefel Gyfatebol o Wybodaeth**
4.1	Cymwysterau Gradd neu gymhwyster cyfwerth a chymhwyster academaidd neu broffesiynol pellach priodol.
4.2	Profiad Gwaith, Rhinweddau Personol a Sgiliau wrth Ymdrin â Phobl Profiad sylweddol o weithio ar lefel uwch gan ysgwyddo rolau arweiniol wrth ddatblygu a gweithredu polisïau ac arferion yn strategol. Gweledigaeth strategol, gallu dadansoddol cryf a'r gallu i ymdrin â materion cymhleth, gyda sgiliau datrys problemau datblygedig a'r gallu i oddef amwysedd. Gwybodaeth ragorol am y sector addysg uwch yng Nghymru ac yn y DU ehangach, ac am amgylchedd y sector cyhoeddus yng nghyswllt polisi addysg uwch. Effeithiolrwydd a hygrededd personol y gallu i gynrychioli'r sefydliad ar lefel uchel o flaen sefydliadau addysg uwch, Llywodraeth Cymru a'r DU, cyrff cyllido a rheoleiddio eraill a sefydliadau allanol eraill. Lefel sylweddol o brofiad yn arwain, gan reoli cyflogeion a thimau ar draws amrywiaeth eang o swyddogaethau. Profiad sylweddol o ysgogi staff o fewn timau ac o weithio ar draws strwythurau tîm. Y gallu i sicrhau cysondeb o ran rheolaeth wrth weithredu polisïau trefniadol CCAUC. Lefel uchel o sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar a'r gallu i gyflwyno materion cymhleth ac/neu ddadleuol yn glir i wahanol gynulleidfaoedd, gan fod yn sensitif i'r cyd-destun. Y gallu i wneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygu polisïau CCAUC y tu allan i'r faes cyfrifoldeb uniongyrchol ei hun, gan roi cyngor a chefnogaeth i'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr, a dirprwyo yn ôl yr angen. Y gallu i sefydlu a chynnal perthnasoedd rhyngbersonol effeithiol yn fewnol ac yn allanol. Yn gallu arddangos gwerthoedd CCAUC yn llawn (Gweithredu'n ddidwyll; Proffesiynoldeb; Meddwl Ymlaen; Gweithio mewn partneriaeth; Gwerthfawrogi a chefnogi ein gilydd). Yn gallu gweithio'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg (dymunol).